OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 3

### Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau y mae eu mangreoedd fel arfer ar agor i'r cyhoedd

### PENNOD 3

### Busnesau a gwasanaethau y mae rhaid cau eu mangreoedd ond y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt

**Cau bariau a bwytai etc.**

**12.**—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 22 i 25 o Atodlen 1—

(a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes, a

(b) ni chaiff gynnal busnes yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Nid yw paragraff (1) yn atal—

(a) defnyddio mangre ar gyfer—

(i) gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre, neu

(ii) gwasanaethau sy'n darparu bwyd neu ddiod i bobl ddigartref;

(b) darparu gwasanaeth ystafell mewn gwesty neu lety arall (pan fo'r gwesty neu'r llety arall yn parhau i weithredu yn unol â'r eithriadau cyfyngedig a ganiateir gan reoliad 13);

(c) ffreutur yn y gweithle rhag bod ar agor pan na fo dewis ymarferol arall i staff yn y gweithle hwnnw gael bwyd;

(d) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan na fydd paragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach.

(3) At ddibenion paragraff (1), mae ardal o dan do sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddau yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel rhan o fangre'r busnes hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 12 mewn grym ar 23.10.2020 am 6.00 p.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, Adran 12.